Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

# Hysbysiad hwylus

## Setliad Llywodraeth Leol

Tachwedd 2008

## Cyflwyniad

Y cam cyntaf yn y broses o bennu setliadau refeniw a chyfalaf llywodraeth leol yw cyhoeddi'r Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro[1], fel arfer ar ddiwedd mis Hydref neu fis Tachwedd ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft. Mae hwn yn nodi'r dyraniadau cyfalaf a refeniw drafft sydd i'w gwneud i awdurdodau lleol ac mae'n cynnwys gwybodaeth am yr amrywiaeth o grantiau eraill sydd ar gael yn ogystal â'r setliad.  Wrth gynhyrchu'r setliad dros dro, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried y farn a fynegir yn adroddiad yr Is-grwp Gwariant (ESG)[2]. Ar ôl cyhoeddi'r setliad dros dro, cynhelir cyfnod ymgynghori statudol cyn pennu'r setliad terfynol.

Caiff y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol[3] ei osod gerbron y Cynulliad ar ôl y cyfnod ymgynghori ffurfiol ar y setliad dros dro, fel arfer ym mis Rhagfyr. Mae'n nodi gwybodaeth am y setliad terfynol a ddyrennir i awdurdodau lleol gan gynnwys nifer y grantiau sydd ar gael. Mae'r cyhoeddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i awdurdodau lleol bennu eu cyllidebau a lefelau eu treth gyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Ar yr un pryd ag y bydd yr adroddiad yn cael ei osod, cyflwynir cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymeradwyo'r adroddiad drwy benderfyniad yn y Cyfarfod Llawn.

Mae'r cyhoeddiad "**Green Book"**[4] (Gwybodaeth gefndir ar gyfer Asesiadau o Wariant Safonol), fel arfer ym mis Mawrth, yn rhoi dadansoddiad o'r Asesiadau o Wariant Safonol (SSA) gan wasanaethau unigol, a ddefnyddir wrth gyfrifo'r setliad refeniw.


---

[1] Setliadau Refeniw a Chyfalaf Dros Dro Llywodraeth Leol 2008-09: Llywodraeth Cynulliad Cymru.
[2] Mae'r Is-grwp Gwariant yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yngl□n â'r pwysau ariannol sydd ar lywodraeth leol ac i drafod yr adnoddau ychwanegol sy'n angenrheidiol ar gyfer ymdrin â'r pwysau hyn. Cyhoeddir adroddiad yr Is-grwp Gwariant gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yng ngoleuni'r trafodaethau hyn.
[3] Local Government Finance Report 2008-09, GEN-LD6934, 22 Ionawr 2008, gwneir yr adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol o dan Adran 84G o *Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988,* fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.*
[4] Green Book 2008-09: Llywodraeth Cynulliad Cymru

## Ariannu Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Darperir tua 80 y cant o'r arian yn y Setliad sydd ar gael i awdurdodau lleol yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ffurf Grant Cynnal Refeniw (RSG) ac Ardrethi Annomestig Cenedlaethol a ailddosberthir (NDR). Gelwir swm y Grant Cynnal Refeniw a'r Ardrethi Annomestig yn Gyllid Allanol Cyfun (AEF).

**Ffigur 1. Cydbwysedd cyllid ar gyfer Awdurdodau Lleol[(a)] yng Nghymru yn Setliad 2008-09**




**Ffynhonnell**: Ffigurau o Setliad Terfynol Llywodraeth Leol 2008-09 (Llywodraeth Cynulliad Cymru)
Noder: (a) Ac eithrio Awdurdodau'r Heddlu

## Grantiau Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig

Grant heb ei neilltuo[5] yw'r Grant Cynnal Refeniw ac mae'n cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol yn ôl fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion.  Caiff y fformiwla hon ei chynnal a'i hadolygu gan yr Is-grwp Dosbarthu (DSG), gweithgor ar y cyd rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a llywodraeth leol[6].  Mae'r fformiwla yn ystyried ffactorau fel poblogaeth, nifer y plant a'r henoed, hyd ffyrdd, natur wledig a theneurwydd y boblogaeth. Bydd y Fforwm Ymgynghorol ar Gyllid[7] yn rhoi cylch gwaith i'r Is-grwp Dosbarthu bob blwyddyn. Mae'r cylch gwaith hwn yn cynnwys rhestr o feysydd gwasanaeth y dylid ymchwilio iddynt ac mae'n adlewyrchu barn Llywodraeth Cynulliad Cymru a llywodraeth leol.

Treth eiddo a delir mewn perthynas ag eiddo annomestig yw ardrethi annomestig (NDR), a elwir hefyd yn gyfraddau busnes. Maent yn fodd i fusnesau a defnyddwyr eiddo annomestig eraill gyfrannu at gostau gwasanaethau awdurdod lleol. Caiff ardrethi busnes eu cyfrifo drwy gymryd gwerth ardrethol eiddo a'i luosi gyda 'lluosydd' yr ardrethi annomestig ar gyfer y flwyddyn dan sylw[8]. Caiff ardrethi busnes eu casglu a'u talu i gronfa ardrethi annomestig Llywodraeth Cynulliad Cymru.  Wedyn cânt eu hailddosbarthu yn ôl i awdurdodau lleol (pro rata i'r boblogaeth oedolion) fel rhan o'r setliad refeniw llywodraeth leol bob blwyddyn.

[5] Cymorth heb ei neilltuo yw'r Grant Cynnal Refeniw a gall awdurdodau lleol ei wario fel y mynnant ar y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Un o egwyddorion proses setliad llywodraeth leol Llywodraeth Cynulliad Cymru yw gallu awdurdodau lleol i bennu eu blaenoriaethau gwario eu hunain.
[6] **Is-grwp Dosbarthu** Llywodraeth Cynulliad Cymru.
[7] Gweithgor Sefydlog y Cyngor Partneriaeth yw'r **Fforwm Ymgynghorol ar Gyllid** ac mae'n rhoi'r gallu i ymgynghori'n eang â'r cymdeithasau llywodraeth leol ar bob agwedd ar gyllid llywodraeth leol.
[8] Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio sy'n annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn prisio eiddo er mwyn codi ardrethi busnes a phennu gwerth ardrethol.  Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n pennu'r lluosydd bob blwyddyn a bydd yn newid bob blwyddyn er mwyn symud yn unol â chwyddiant.

## Ffynonellau eraill o arian

Caiff arian ychwanegol yn y setliad refeniw ei godi'n lleol ar ffurf y dreth gyngor, sy'n cael ei phennu gan bob awdurdod lleol fel rhan o'i broses flynyddol o bennu'r gyllideb a chodir tâl yn ôl y bandiau prisio. Mae gofyn i bob awdurdod lleol gyfrifo sylfaen ei dreth gyngor yn unol â ***Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) 1995***[9] O ran y setliad, er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru, ni chymerir unrhyw sylw o dybiaethau cynghorau am gyfraddau casglu – tybir bod cyfraddau casglu yn 100 y cant.

Mae awdurdodau lleol yn gymwys i dderbyn arian ychwanegol er mwyn cefnogi'r gwariant ar feysydd gwasanaeth penodol drwy raglen grant Llywodraeth Cynulliad Cymru.  Caiff y grantiau hyn, sydd heb eu neilltuo, eu rhoi i lywodraeth leol at ddibenion penodol ac mae'n rhaid i unrhyw arian a dderbynnir gael ei wario o fewn y maes sy'n cael ei bennu pan ddarperir y grant.

Hefyd, mae ffynonellau eraill o arian nad yw wedi'i neilltuo ar gael ar wahân i'r Grant Cynnal Refeniw, fel y Grant Amddifadedd a'r Grant Cytundeb Gwella.

## Dosbarthu Grantiau – Yr Asesiad o Wariant Safonol

Dull o ddosbarthu adnoddau i awdurdodau lleol yw'r Asesiadau o Wariant Safonol.  Dull y Llywodraeth o ddyrannu grant yn seiliedig ar gyfrifiad o'r hyn y mae angen i bob awdurdod lleol ei wario er mwyn darparu lefel safonol o wasanaethau ar gyfradd gyffredin o dreth gyngor yw'r Asesiad o Wariant Safonol.

Caiff fformiwla'r Asesiad o Wariant Safonol ei adolygu gan yr Is-grwp Dosbarthu mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol[10].  Mae hyn yn deillio o gyfrifiad sy'n seiliedig ar anghenion, gan ddefnyddio gwybodaeth sy'n adlewyrchu nodweddion demograffig, ffisegol, economaidd a chymdeithasol. Mae hefyd yn adlewyrchu'r costau cymharol o ddarparu gwasanaethau tebyg rhwng gwahanol awdurdodau.

Mae'r gwahaniaethau yn Asesiadau o Wariant Safonol awdurdodau sydd â'r un cyfrifoldebau gwasanaeth felly o ganlyniad i wahaniaethau yn eu nodweddion sylfaenol. Nid yw Asesiad o Wariant Safonol yn seiliedig ar wariant gwirioneddol.

---

[9] Cafodd y rheoliadau hyn eu diwygio, gweler *Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) (Cymru) (Diwygio) 1999:* **http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi1999/19992935w.htm** a *Rheoliadau Awdurdodau  Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthu Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004:* **http://www.opsi.gov.uk/legislation/wales/wsi2004/20043094w.htm**.

[10] **Is-grwp Dosbarthu** Llywodraeth Cynulliad Cymru

## Cyfrifo'r Asesiad o Wariant Safonol [11]

Mae'r system o ddyrannu grantiau wedi'i chynllunio i fod yn wrthrychol ac i gadw'r angen a'r adnoddau'n gyfartal. Yr egwyddorion a ganlyn sydd wrth wraidd y cyfrifiad o Asesiadau o Wariant Safonol

- Caiff maint cyffredinol y setliad ei bennu gan gyfansymiau sydd o dan reolaeth y Llywodraeth;
- Caiff pwysigrwydd cymharol y gwasanaethau a ddarperir gan lywodraeth leol eu pennu gan batrymau gwariant gwirioneddol;
- Caiff y dosbarthiad o fewn gwasanaethau, yn gyffredinol, ei bennu gan ddangosyddion gwrthrychol o angen cymharol awdurdodau i wario.

Er mwyn cyfrifo dyraniadau unigol o'r Asesiad o Wariant Safonol, caiff gwariant refeniw llywodraeth leol ei rannu'n 58 o feysydd gwasanaeth tybiannol. Mae dull arall o ddosbarthu'n bodoli ar gyfer pob un o'r elfennau hyn er mwyn dosbarthu'r cyfanswm ar draws yr awdurdodau.

Caiff y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r Asesiadau o Wariant Safonol ei nodi yn yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) blynyddol sy'n cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a'i drafod yn y Cyfarfod Llawn.

## Adroddiadau Diwygio

Caiff un adroddiad diwygio[12] ei osod gerbron y Cynulliad ar unrhyw adeg cyn diwedd y flwyddyn ariannol, yn union ar ôl y flwyddyn y mae'r Adroddiad Ariannol yn ymwneud â hi. Bydd hwn yn rhoi manylion y newidiadau i sail y dosbarthiad a amlinellir yn yr Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol a gymeradwywyd.  Mae adroddiadau diwygio yn nodi'r newidiadau yn nosbarthiad y Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau yng Nghymru, sydd wedi digwydd ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo'r Adroddiad Cyllid. Cyn cyhoeddi adroddiad diwygio, mae gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi gwybod i gynrychiolwyr priodol llywodraeth leol am natur gyffredinol y diwygiadau y mae'n bwriadu eu gwneud. Rhaid anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl ei gyhoeddi.

[11] I gael eglurhad mwy manwl o'r Asesiadau o Wariant Safonol, gweler yr Hysbysiad Hwylus ar **Asesiad o Wariant Safonol a gynhyrchwyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau** a'r **canllaw i Asesiadau o Wariant Safonol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru** *(Saesneg yn unig)*
[12] Local Government Finance Amending Report 2005-06

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am Setliad Llywodraeth Leol cysylltwch â **Martin Jennings**, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau Martin.Jennings@Cymru.GSI.Gov.UK)

I gael rhagor o wybodaeth am y testunau isod, cliciwch ddwywaith ar y lincs.

- Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (dros dro) 2008-09 Llywodraeth Cymru *(Saesneg yn unig)*
- Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (terfynol) 2008-09 Llywodraeth Cymru *(Saesneg yn unig)*
- Llyfr Gwyrdd 2008-09 Llywodraeth Cymru *(Saesneg yn unig)*
- Canllaw i Asesiadau o Wariant Safonol Llywodraeth Cymru *(Saesneg yn unig)*
- Adroddiad Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol 2005-06 Llywodraeth Cymru (*Saesneg yn unig)*

Rhestr lawn o Hysbysiadau Hwylus



**Caiff papurau briffio Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau eu llunio er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Gall yr awduron drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant gynghori aelodau'r cyhoedd. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein papurau briffio a dylid anfon y rhain at Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd CF99 1NA neu anfonwch e-bost at; MembersLibrary@cymru.gsi.gov.uk**